

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Trebor Roberts (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd, Meirion. Byddem yn cael cwmni Meirion yn yr oedfa ar nos Sul yn eithaf aml a da oedd cael sgwrsio ag ef dros baned a'i glywed yn gwerthfawrogi'r Gair. Gweddiwn y bydd y teulu oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn. Cofiwn hefyd am eraill o'r Ofalaeth sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos. Cyflwynwn bob un ohonynt i ofal Duw, gan ddyuno yr un nodedd a nerth iddynt hwythau.
- Dymunwn yn dda i Glyn Davies (Saron) sydd yn disgwyl cael llawdriniaeth ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y bydd y cwbl yn mynd yn ddi-helynt ac y caiff adferiad buan. Da clywed fod Susannah Williams (Llansannan) wedi cael mynd yn ôl i Gartref Coed Môr yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Cyflwynwn bawb arall sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau i ofal yr Arglwydd hefyd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau calonnog i Andras Iago (Llansannan) a Heledd Fflur Dafydd ar eu dyweddiad.

I ddod

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yn Nhrefnant, nos Iau, Tachwedd 15fed. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Aneurin Owen am 6.00.
- **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Pendref, Rhuthun nos Iau, Tachwedd 22ain am 7.00. Yn dilyn y materion ffurfiol, ceir anerchiad gan Lywydd y Cwrdd Chwarter, Mr Alun Edwards, ac yna fe weinyddir y cymun.
- **Hyfforddiant Efengyl** gyda Roger Carswell yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 30ain – Rhagfyr 1af. Croeso i ieuencid 15+ ac oedolion o bob oed. Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle, cysylltwch â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Tachwedd 2012

Wedi i chi ddarllen y myfyrdod isod,
beth am droi i emyn 803 o waith Sion
Aled a welir yng Nghaneuon Ffydd?

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Wrth i mi ysgrifennu hwn mae'r gwyntoedd cryfion uwchstorm 'Sandy' yn taro Efrog Newydd ac arfordir gogledd ddwyrain America a phob sôn am etholiad a gwleidyddiaeth wedi ei 'sgubo ymaith. Y flaenoriaeth yw diogelwch, a chaiff popeth arall aros. Mae'r storm yma yn fwy grymus na phobl ac ni all y wlad mwyaf pwerus yn y byd atal y perygl. Mae'n rhaid wynebu'r storm a cheisio gwneud y gorau i amddiffyn teulu ac eiddo tra bydd y storm ar ei hanterth.

Yr hyn sydd yn rhyfeddod i mi ydi clywed fod rhai o'r trigolion wedi dewis mynd i ganol y storm er mwyn cael gweld y storm wyneb yn wyneb. Maent yn fodlon peryglu eu bywydau er mwyn cael y profiad. Gwirion neu ddewr, medde chi? Gwn beth fyddai ateb y teuluoedd sydd wedi colli anwyliad o ganlyniad i'r storm. Rwy'n siŵr y byddwn yn cofio amdanynt yn ein gweddiâu heddiw.

Dadl y rhai sy'n gwneud y fath beth ydi fod y profiad o gymryd risg hefo bywyd yn cyfoethogi bywyd. Ond a oes yna unrhyw gyfiawnhad mewn gwirionedd dros geisio'r 'thrill' sy'n rhoi ein bywyd yn y fantol? Oni ddylem geisio diogelu'r bywyd gwerthfawr yma a gawsom gan Dduw uwchlaw pob peth – a pheidio a'i beryglu'n ddiangen? A fyddem ni yn mynd i ganol y storm petaem yn cael y cynnig?

Mae gan Iesu ddyweddiad am gadw bywyd a'i gollu:

“Dydy'r sawl sydd ddim yn codi ei groes, a cherdded yr un llwybr o hunanaberth â mi, ddim yn haeddu perthyn i mi. Bydd y sawl sy'n ceisio amddiffyn ei fywyd yn colli'r bywyd go iawn, ond y sawl sy'n barod i ollwng gafael ar ei fywyd er fy mwyn i yn diogelu bywyd go iawn iddo'i hun.” (Mathew 10: 38-39)

Mae'n siŵr fod yna rai pobl sy'n edrych ar bobl sy'n fodlon dilyn Iesu fel pobl wirion hefyd – fel pobl sydd yn fodlon taflu eu bywydau i ffwrdd yn ddiangen. Mae Iesu yn dweud yn glir yn y geiriau yma mai'r gwrthwyneb sy'n wir – y mae hi'n angenrheidiol i bawb sydd am ei ddilyn roi y cwbl iddo, mentro'r cwbl, a cherdded i mewn i nerth chwyldroadol ei Ysbryd Glân – fel cerdded i ganol y storm sydd yn llawer iawn cryfach na dim byd arall. Mae'r Iesu yn dweud mai ynddo Ef y mae ein diogelwch pennaf ni ac mai wrth godi ei groes y cawn ei nerth Ef i wynebu pob storm.

Croeso i chi i oedfaon y dydd a gobeithio y cewch y profiad o deimlo'n ddiogel yn llaw yr Arglwydd heddiw yn ei gwmni ac yng nghwmni ei bobl. Gobeithio hefyd i chi gael bendith yr wythnos diwethaf yng nghwmni Meirion a Sarah a Hanna. Ond doedd hi'n braf eu gweld nhw?

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma
- **Cyfarfod Gweddi dros y Rhaglen Dorcas** yn y Granar, Llansannan am 4.00. Croeso i ddyinion a merched.
 - Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun
- **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher
- **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau
- **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener
- **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- Gwener-Sul
- **Penwythnos Ieuenticid** yng Ngholeg y Bala. Mae Eglwysi Bro Aled yn cynnig gostyngiad o £10 i bob person ifanc o'r Ofalaeth fydd yn mynychu'r penwythnos. I archebu lle a chael mwy o wybodaeth cysylltwch ar frys â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk
- Sul nesaf
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Haf Evans, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mercher
- Bydd Cymdeithas Llanfair yn cyfarfod yn y Neuadd am 7.30 pryd y bydd Nerys Davies yn rhoi sgwrs.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma
- Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant am 10.00 a bydd Aneurin yn rhoi anerchiad i ddilyn. Bydd y casgliad ariannol eleni yn mynd i gefnogi gwaith Macmillan. Gwerthfawrogir hefyd roddion tuag at Fanc Bwyd Dinbych. Eleni eto, mae stondin Tearcraft yn y capel a bydd cyfle i archebu nwyddau ar derfyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Pwyllgor Cymdeithas y Beibl yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15 heno.
- Iau
- Dydd Jangl. Dewch am banded **erbyn 11.00** a chewch sgwrs gan Rhodri, ac yna bydd cinio wedi ei baratoi i chi erbyn oddeutu 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan a Groes am 10.00 a chynhelir yr Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Henllan.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau